

Datganiad Tir Cyffredin rhwng Cyngor Sir Caerfyrddin 'Yr Awdurdod Cynllunio Lleol' a Swallow Investments Ltd 'Y Tirfeddiannwr'.

Cyfeiriad y Safle:
Tir ar Fferm Tirychen, Heol Dyffryn, Rhydaman
Cyfeirnod(au) Cynllunio / Cyfeirnod(au) Cynllun Lleol:
Cyfeirnod Ail Gynllun Datblygu Lleol Adneuo Diwygiedig: PrC3/h4
Cyfeirnod Caniatâd Cynllunio Amlinellol: E/38686
Cyfeirnod Cais A73: PL/06556
Dyddiad:

Diben y Datganiad Tir Cyffredin hwn

Paratowyd y Datganiad Tir Cyffredin hwn gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol a'r Tirfeddiannwr i gadarnhau y gellir cyflawni dyraniad tai cyf. PrC3/h4 yn yr Ail Gynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Adneuo ar dir ar Fferm Tirychen, Heol Dyffryn, Rhydaman. Dangosir dyraniad tai cyf. PrC3/h4 yn frown ar y cynllun yn Atodiad 1 o'r Datganiad Tir Cyffredin hwn.

Mae'r Datganiad Tir Cyffredin hwn yn mynd i'r afael â'r dangosyddion cyflawni canlynol:

1. Statws cynllunio'r safle.
Cynnydd a wnaed o ran cyflwyno cais (ceisiadau) y mae'n ofynnol eu caniatáu cyn y gall datblygiad y safle y rhoddwyd cydsyniad iddo o dan ganiatâd amlinellol cyf. E/38686 ddechrau'n gyfreithlon.
2. Cynnydd a wnaed o ran y gwaith asesu safle sy'n ofynnol ar gyfer y cais (ceisiadau) a/neu cyn y gall datblygiad y safle y rhoddwyd cydsyniad iddo o dan ganiatâd amlinellol cyf. E/38686 ddechrau'n gyfreithlon.
3. Gwybodaeth berthnasol am hyfywedd ariannol sy'n effeithio ar ddechrau a chyflawni datblygiad y safle.
4. Gwybodaeth berthnasol am berchnogaeth safle a chyfyngiadau mynediad sy'n effeithio ar yr asesiad o'r safle neu ddechrau a chyflawni datblygiad y safle.
5. Gwybodaeth berthnasol am y ddarpariaeth seilwaith sy'n angenrheidiol i gefnogi/galluogi dechrau a chyflawni datblygiad y safle.
6. Bwriadau cyflawni'r Tirfeddiannwr a chyfraddau cyflawni ac adeiladu disgwyledig.

At ddibenion y Datganiad Tir Cyffredin hwn, Cyngor Sir Caerfyrddin yw'r "Awdurdod Cynllunio Lleol" a Swallow Investments Ltd yw'r "Tirfeddiannwr".

Er mwyn eglurder, mae'r Datganiad Tir Cyffredin hwn yn ymwneud â dyraniad tai yn unig cyf. PrC3/h4 fel y cynigiwyd ar hyn o bryd gan yr Ail Gynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Adneuo (ar gyfer 150 o anheddau ac fel y dangosir wedi'u cysgodi mewn brown ar y cynllun yn Atodiad 1) ac nid yw'n ymwneud â'r sylwadau a wnaed yn briodol gan y Tirfeddiannwr i'r Ail Gynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Adneuo.

1. Statws Cynllunio'r Safle

- 1.1 Mae'r safle hwn o 7.10 hectar wedi'i ddyrannu yn yr Ail Gynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Adneuo o dan gyfeirnod PrC3/h4 ar gyfer 150 o anheddau. Mae'r safle yn eiddo i Swallow Investments Ltd ac ar hyn o bryd mae'n elwa o ganiatâd amlinellol cyf. E/38686 ar gyfer 289 o anheddau, gyda dull mynediad, cynllun a graddfa wedi'u cymeradwyo'n fanwl yn ystod y cam amlinellol.
- 1.2 Rhoddwyd caniatâd amlinellol cyf. E/38686 ar 8 Hydref 2019, fel adnewyddiad trwy Gais A73, o ganiatâd amlinellol cyf. E/21663 a roddwyd ar 10 Hydref 2014.

2. Cynnydd a wnaed o ran cyflwyno cais (ceisiadau) y mae'n ofynnol eu caniatáu cyn y gall datblygiad y safle ddechrau'n gyfreithlon.

- 2.1 Mae caniatâd amlinellol cyf. E/38686 yn weithredol tan 8 Hydref 2023; ac ar 8 Medi 2023, cyflwynodd y Tirfeddiannwr Gais A73 arall i amrywio amodau penodol sydd ynghlwm wrth ganiatâd amlinellol cyf. E/38686, a fydd, os caiff ei ganiatáu, yn creu caniatâd amlinellol newydd ar gyfer datblygiad y safle, ymhlith pethau eraill, gyda gofyniad i gyflwyno cais am gymeradwyo Materion a Gadwyd yn Ôl ar gyfer Cam 1 datblygiad y safle o fewn blwyddyn. Cafodd y cais A73 hwn ei ddilysu gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol ar 28 Medi 2023 a rhoddwyd cyfeirnod PL/06556 iddo.

3. Cynnydd a wnaed o ran y gwaith asesu safle sy'n ofynnol ar gyfer y cais (ceisiadau) a/neu cyn y gall datblygiad y safle ddechrau'n gyfreithlon.

- 3.1 Cynhaliwyd archwiliadau safle a gwaith arolygu mewn cysylltiad â chaniatâd amlinellol cyf. E/21663 ac E/38686; ac mae amod 3 o ganiatâd amlinellol cyf. E/38686 yn rhestru'r cynlluniau canlynol a dogfennau eraill a gymeradwywyd fel rhan o'r un peth:

- a) 09-012/01B - Cynllun Lleoliad
- b) 09-012/04B - Dyraniad Tir Arfaethedig
- c) 09-012/05F - Cynllun Cynllunio
- d) 09-012/502C - Cynllun Gosod Ffyrdd
- e) 09-012/511-1C - Diagramau Orlhain ar gyfer Taflen Cerbydau Sbwriel 1 o 2
- f) 09-012/511-2C - Diagramau Orlhain ar gyfer Taflen Cerbydau Sbwriel 1 o 2
- g) 09-012 / PP01C - Cynllun fesul Cam
- h) 002-0102-B - Mynediad Arfaethedig i Heol Dyffryn
- i) Asesiad Trafnidiaeth a Chynllun Teithio (20 Awst 2009)
- j) Datganiad Cynllunio, Dylunio a Mynediad (Awst 2009)
- k) SPD17000-03A - Cynllun Diogelu Coed
- l) Asesiad Goblygiadau Coedyddiaeth cyf. SPD17000AIA rev. A
- m) Datganiad Dull Coedyddiaeth cyf. SPD17000AMS rev. A
- n) Adroddiad Coed cyf. SPD17000TR rev. B
- o) Cynllun Rheoli Coetir cyf. SPD17000WM
- p) Adroddiad Coetir cyf. SPD17000WR rev. A
- q) Cam Estynedig 1 yr Arolwg o Rywogaethau ac Astudiaeth Desg rev. A
- r) Strategaeth Lliniaru cyf. SPD17000MitStrat rev. A
- s) Asesiad o'r Effeithiau Tirweddol a Gweledol cyf. SPD17000L&V rev. B
- t) SPD17000 10a - Prif Gynllun Tirwedd
- u) Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd cyf. R/09092/001
- v) Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg (Medi 2009)

- 3.2 Mae copïau o'r cynlluniau a'r dogfennau a restrir uchod ar gael i'w gweld ar wefan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.
- 3.3 Cytunwyd gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol y dylid diweddarau'r dogfennau canlynol a gymeradwywyd fel rhan o ganiatâd amlinellol cyf. E/38686 i ffurfio rhan o Gais A73 cyf. PL/06556:
- a) Asesiad Trafnidiaeth a Chynllun Teithio
 - b) Arfarniad Ecolegol Rhagarweiniol a Strategaeth Lliniaru cysylltiedig
 - c) Asesiad Canlyniadau Llifogydd a Strategaeth Draenio Dŵr Arwyneb Amlinellol a chynlluniau cysylltiedig
- 3.4 Mae'r dogfennau hyn wedi'u diweddarau a'u cyflwyno gyda Chais A73 cyf. PL/06556. Dylid nodi bod diweddarau'r Strategaeth Draenio Dŵr Arwyneb Amlinellol a gymeradwywyd fel rhan o ganiatâd amlinellol cyf. E/38686 wedi golygu bod angen diwygiadau i'r Cynllun Cynllunio cyf. 09-012/05F a gymeradwywyd fel rhan o ganiatâd amlinellol cyf. E/38686, i ymgorffori basn draenio dŵr wyneb. Mae hyn yn ei dro wedi lleihau nifer tai'r safle o 289 o anheddau i 281 o anheddau. Yn unol â hynny, mae Cais A73 cyf. PL/06556 hefyd yn cynnwys y cynlluniau diwygiedig ychwanegol canlynol:
- a) Cynllun Cynllunio cyf. 09-012-02 Rev. G
 - b) Cynllun Fesul Cam cyf. 09-012-PP01 Rev. D
 - c) Cynllun Gosod Ffyrdd cyf. 502C
 - d) Dwy Daflen Olrhain cyf. 511-1D a 511-2D
- 3.5 Mae copïau o'r cynlluniau a'r dogfennau a restrir uchod ar gael i'w gweld ar wefan yr Awdurdod Cynllunio Lleol fel rhan o Gais A73 cyf. PL/06556. Dylid nodi bod yr Asesiad Trafnidiaeth a Chynllun Teithio diwygiedig a gyflwynwyd gyda Chais A73 cyf. PL/06556 wedi'i baratoi ar sail datblygiad y safle gyda 281 o anheddau.
- 3.6 Yn ogystal â gwaith y Tirfeddiannwr a wnaed mewn perthynas â'r ceisiadau cynllunio uchod, mae ymrwymiad y Tirfeddiannwr i gyflawni datblygiad y safle hefyd yn amlwg o sylwadau a wnaed yn briodol gan y Tirfeddiannwr i'r Ail Gynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Adneuo, yn hyrwyddo tir ychwanegol cyfagos fel modd o helaethu dyraniad tai cyf. PrC3/h4.
- 3.7 Mae'r sylwadau a wnaed yn briodol gan y Tirfeddiannwr yn cynnwys y dogfennau/astudiaethau ategol canlynol sy'n ymwneud â dyraniad tai cyf. PrC3/h4 a'r tir ychwanegol cyfagos:
- Sylwadau ysgrifenedig a nodir mewn llythyr dyddiedig 20 Mawrth 2023
 - Cynllun Lleoliad Cofrestr Safleoedd Ymgeisio Gwreiddiol 2018 cyf. CA0326 a SR/004/012
 - Cynllun Lleoliad Safle cyf. 09-012/01 REV B
 - Cynllun Cynllunio cyf. 09-012/05 REV E
 - Prif Gynllun Tirwedd cyf. SP17000 10A
4. **Gwybodaeth berthnasol am hyfywedd ariannol sy'n effeithio ar ddechrau a chyflawni datblygiad y safle.**
- 4.1 Mae'r Tirfeddiannwr wedi cadarnhau mewn llythyr dyddiedig 8 Medi 2023 a gyflwynwyd gyda Chais A73 cyf. PL/06556 y bydd datblygiad y safle yn cyflawni popeth sy'n ofynnol gan Gytundeb Adran 106 sy'n gysylltiedig â chaniatâd amlinellol cyf.

E/21663, fel y'i hamrywir gan Weithred Amrywio sy'n gysylltiedig â chaniatâd amlinellol cyf. E/38686. Cyflawnir hyn drwy Weithred Amrywio sy'n cysylltu caniatâd amlinellol newydd a gynhyrchir gan Gais A73 cyf. PL/06556 â'r Weithred Amrywio sy'n gysylltiedig â chaniatâd amlinellol cyf. E/38686, sydd yn ei dro yn cysylltu â Chytundeb Adran 106 sy'n gysylltiedig â chaniatâd amlinellol cyf. E/21663.

4.2 Darperir diweddariadau pellach i'r Datganiad Tir Cyffredin hwn wrth i Gais A73 cyf. PL/06556 symud yn ei flaen i'r cam penderfynu.

5. **Gwybodaeth berthnasol am berchnogaeth safle a chyfyngiadau mynediad sy'n effeithio ar yr asesiad safle neu ddechrau a chyflawni datblygiad y safle.**

Perchenogaeth

5.1 Mae Swallow Investments Ltd yn berchen ar rydd-ddaliad y safle, sy'n rhydd o unrhyw lyffetheiriau/cyfyngiadau cyfreithiol neu eraill a fyddai'n atal neu'n oedi dechrau a chyflawni datblygiad y safle.

Mynediad

5.2 Darperir prif fynediad cyffordd â blaenoriaeth oddi ar Heol Dyffryn i ddatblygiad y safle; a mynediad eilaidd i gerddwyr/i feicwyr/mewn argyfwng oddi ar Newton Close. Nid oes unrhyw lyffetheiriau/cyfyngiadau cyfreithiol neu eraill a fyddai'n atal nac yn oedi'r datblygiad a'r defnydd o'r mynedfeydd hyn.

Hygyrchedd

5.3 Mae'r ystod lawn o wasanaethau a chyfleusterau cymunedol a threfol ar gael yn agos iawn i'r safle, yn nhref Rhydaman. Mae caniatâd amlinellol y safle, cyf. E/38686, yn darparu darnau o balmant newydd ar ddwy ochr Heol Dyffryn, a fydd yn darparu'r cyswllt di-dor cyntaf i gerddwyr ar hyd Heol Dyffryn rhwng canol tref Rhydaman a Phentref Saron i'r gorllewin.

5.4 Mae caniatâd amlinellol y safle cyf. E/38686 hefyd yn darparu arhosfan fysiau newydd ar Heol Dyffryn, y tu allan i safle'r cais; a dylid nodi hefyd bod y Tirfeddiannwr wedi rhoi tir i'r Awdurdod Cynllunio Lleol ar 18 Mawrth 2019 i hwyluso'r gwaith o adeiladu pont droed newydd i gerddwyr ar draws nant Nant-y-ci yn ddiweddar, i gysylltu â'r palmant presennol ar hyd Heol Dyffryn i'r gorllewin o'r safle.

5.5 Mae caniatâd amlinellol y safle cyf. E/38686 yn ymgorffori rhwydwaith cynhwysfawr o lwybrau i gerddwyr trwy ddatblygiad y safle, er mwyn gwneud y mwyaf o'i gysylltiadau â'r ardal gyfagos a'i hintegreiddio. Bydd y rhwydwaith hwn o lwybrau i gerddwyr hefyd yn annog cerdded a beicio o fewn y datblygiad ac i wasanaethau a chyfleusterau cyfagos yn y gymuned a'r dref yn Rhydaman a Saron, a thrwy hynny leihau'r defnydd o geir preifat.

5.6 Mae datblygiad y safle, fel y'i cymeradwyir gan ganiatâd amlinellol cyf. E/38686, hefyd yn cynnwys rhwydwaith cynhwysfawr o lwybrau i gerddwyr ledled ardal gyfagos y coetir sydd hefyd yn eiddo i Swallow Investments Ltd. Bydd y rhwydwaith hwn o 'lwybrau coetir' yn cynyddu mynediad y cyhoedd i'r coetir, a'u mwynhad ohonynt, yn fawr.

6. Gwybodaeth Berthnasol am y Ddarpariaeth Seilwaith sy'n angenrheidiol i gefnogi/galluogi Cychwyn a Chyflawni Datblygiad y Safle.

- 6.1 Fel y nodir uchod, ar 8 Medi 2023, cyflwynodd y Tirfeddiannwr Gais A73 i amrywio amodau penodol sydd ynghlwm wrth ganiatâd amlinellol, cyf. E/38686, a fydd, os caiff ei roi, yn golygu cynhyrchu caniatâd amlinellol newydd ar gyfer datblygiad y safle, ymhlith pethau eraill, gyda gofyniad i gyflwyno cais am gymeradwyo Materion a Gadwyd yn Ôl ar gyfer Cam 1 datblygiad y safle o fewn blwyddyn. Cafodd y cais A73 hwn ei ddilysu gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol ar 28 Medi 2023 a rhoddwyd y cyf. PL/06556 iddo; ac mae'n dystiolaeth glir o fwriad y Tirfeddiannwr i gyflawni datblygiad y safle.
- 6.2 Mae'r Tirfeddiannwr wedi hysbysu'r Awdurdod Cynllunio Lleol bod cynnydd sylweddol wedi'i wneud o ran y trafodaethau gyda datblygwr a fydd yn prynu'r safle ac yn cyflawni ei ddatblygiad ar gyfer 281 o anheddau, yn unol â thelerau caniatâd amlinellol newydd ar gyfer datblygiad y safle a gynhyrchir gan Gais A73 cyf. PL/06556.

Cyfoeth Naturiol Cymru

- 6.3 Derbyniwyd cynrychiolaeth gan Gyfoeth Naturiol Cymru (CNC) mewn perthynas â dyraniad tai'r safle cyf. PrC3/h4 yn yr Ail Gynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Adneuo, lle cydnabuwyd yr angen am asesiadau ecolegol pellach, fel a ganlyn:

"...Mae'r safle wedi sicrhau caniatâd amlinellol ac mae nifer o ofynion ecolegol ynghlwm. Bydd yn rhaid i ddyluniad terfynol y safle gael ei arwain gan sensitifrwydd ecolegol y safle.

Mae'r safle'n goediog iawn ac yn ffinio â choetir hynafol lle mae pathewod. Gall britheg y gors hefyd ddefnyddio glaswelltir ar y safle. Mae'n ymddangos bod y safle'n darparu cysylltedd pwysig â'r dirwedd ehangach. Os felly, byddai angen cymryd camau lliniaru yn unrhyw gynefin pathewod, a allai olygu bod datblygu'n heriol. Cynefin posibl Britheg y Gors..."

- 6.4 Nid yw'r materion sydd wedi'u cynnwys yn sylwadau CNC yn rhai newydd, a rhoddwyd sylw digonol iddynt yn nhelerau'r caniatâd amlinellol gwreiddiol cyf. E/38686. Ail-gyfeiriwyd y materion ar gyfer Cais A73 cyf. PL/06556.

Dŵr Cymru Welsh Water

- 6.5 Mae sylwadau Dŵr Cymru Welsh Water mewn perthynas â'r Ail Gynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Adneuo yn cydnabod bod y safle wedi'i ymrwymo drwy ganiatâd cynllunio presennol, ac o ganlyniad ni chodwyd gwrthwynebiadau i ddyraniad tai'r safle cyf. PrC3/h4.

Adran Priffyrdd a Thrafnidiaeth Sir Gaerfyrddin

- 6.6 Mae materion sy'n ymwneud â phriffyrdd a thrafnidiaeth wedi cael sylw gan delerau caniatâd amlinellol, cyf. E/38686. Ail-gyfeiriwyd y materion ar gyfer Cais A73 cyf. PL/06556.

Effaith ar y Gymuned/yr Iaith Gymraeg

- 6.7 Bydd dyraniad a datblygiad y safle yn darparu ystod a dewis o feintiau, mathau a deiliadaethau tai (gan gynnwys tai fforddiadwy); ac ni fydd yn cael unrhyw effaith andwyl sylweddol ar yr iaith Gymraeg nac ar unrhyw gymunedau lleol.

7. Bwriadau Cyflawni'r Tirfeddiannwr, Pryd y Disgwylir Dechrau Adeiladu a'r Cyfraddau Adeiladu Disgwyliedig

- 7.1 Mae'r tabl isod yn atgynhyrchu Taflwybr Tai yr Ail Gynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Adneuo ar gyfer dyraniad tai'r safle cyf. PrC3/h4:

Amserlen (Blynnyddoedd)	2025/26	2026/27	2027/28	2028/29	2029/30	2030/31	2031/32
Nifer yr Anheddau a Gwblhawyd	10	20	20	30	30	30	10

- 7.2 Yn seiliedig ar y wybodaeth a nodir yn y Datganiad Tir Cyffredin hwn, ymrwymiad clir y Tirfeddiannwr fel y gwelir gan Gais A73 cyf. PL/06556 ac yng ngoleuni sylwadau'r Tirfeddiannwr i'r Ail Gynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Adneuo, gellir cadarnhau y bydd y safle yn cael ei ddatblygu o fewn yr amserlenni a nodir uchod.
- 7.3 Darperir diweddariadau pellach i'r Datganiad Tir Cyffredin hwn wrth i Gais A73 cyf. PL/06556 symud yn ei flaen i'r cam penderfynu.

8. Asesiad Cyflawni

- 8.1 Yn seiliedig ar y wybodaeth a gynhwysir yn y Datganiad Tir Cyffredin hwn, ystyrir bod tystiolaeth glir bod dyraniad tai y safle cyf. PrC3/h4 yn gyflawnadwy o fewn yr amserlenni a nodir yn Nhafllwybr Tai'r Ail Gynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Adneuo.
- 8.2 Mae dyraniad tai y safle cyf. PrC3/h4 wedi bod yn destun ystyriaeth lawn drwy fethodoleg asesu safleoedd yr Awdurdod Cynllunio Lleol; ac mae ffurflen safle fanwl wedi cael ei pharatoi. Ystyrir bod y dyraniad yn gadarn ac yn gyflawnadwy; yn darparu ar gyfer rhai o anghenion tai Rhydaman; yn cael ei gefnogi gan sylfaen dystiolaeth gadarn; ac wedi cael ei lunio o ran ac mewn modd sy'n gyson ag Arfarniad Cynaliadwyedd yr Ail Gynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Adneuo.
- 8.3 Caiff dyraniad tai cyf. PrC3/h4 felly ei gymeradwyo i'r Arolygydd.


9. Materion Anghytundeb

- 9.1 Mae'r Tirfeddiannwr yn cyfeirio at y 289 o anheddau y rhoddwyd caniatâd amlinellol iddynt cyf. E/38686, a ddiwygiwyd i 281 o anheddau o dan y Cais A73 newydd cyf. PL/06556. Er mai bwriad Tirfeddiannwr yw datblygu'r safle ar gyfer 281 o anheddau, dylid nodi bod yr Awdurdod Cynllunio Lleol wedi lleihau dyraniad arfaethedig y safle yn yr Ail Gynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Adneuo i 150 o anheddau oherwydd diffyg darpariaeth hyd yma. O ganlyniad, nid yw'r ffigwr o 281 o anheddau o fewn cylch gorchwyl y Datganiad Tir Cyffredin hwn.
- 9.2 Mae'r Tirfeddiannwr hefyd yn cyfeirio at sylwadau 'A wnaed yn briodol' y mae wedi'u cyflwyno i'r Ail Gynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Adneuo, lle mae achos yn cael ei

gyflwyno, ymhlith eraill, o blaid diwygio dyraniad tai cyf. PrC3/h4 fel y'i cynigir ar hyn o bryd gan yr Ail Gynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Adneuo i hyd at 289 o anheddau o leiaf, yn ogystal â chyflwyno achos o blaid helaethu dyraniad tai cyf. PrC3/h4 i gynnwys tir ychwanegol gerllaw, yn gyson â darparu oddeutu 330 o anheddau. Er mwyn ailadrodd, ac er budd eglurder, mae'r Datganiad Tir Cyffredin hwn yn ymwneud â dyraniad tai yn unig cyf. PrC3/h4 fel y cynigiwyd ar hyn o bryd gan yr Ail Gynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Adneuo (ar gyfer 150 o anheddau ac fel y dangosir wedi'u cysgodi mewn brown ar y cynllun yn Atodiad 1) ac nid yw'n ymwneud â sylwadau a wnaed yn briodol gan y Tirfeddiannwr i'r Ail Gynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Adneuo.

Llofnodwyd ar ran yr Awdurdod Cynllunio Lleol	
Enw	
Swydd	
Dyddiad	
Llofnodwyd ar ran y Tirfeddiannwr	
Enw	
Swydd	
Dyddiad	

Atodiad 1 Lleoliad a Chyd-destun y Safle



Dyraniad Tai PrC3/h4 ar dir Fferm Tirychen, Heol Dyffryn, Rhydaman

Crynodeb o'r Ail Gynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Adneuo